CROESO

Taflen Wybodaeth Meithrinfa Ysgol Mynydd Bychan 2024-25

Manylion cyswllt yr ysgol: ysgolmynyddbychan@cardiff.gov.uk/ 02920 613 417

Croeso i deulu ysgol Mynydd Bychan – *"O'r Fesen Derwen a Dyf"*

"Mae gennym ni weledigaeth glir bod gan bob plentyn yr hawl cynhenid i ddysgu gyda'r bwyslais ar ddarparu awyrgylch ble gall ein disgyblion ddatblygu'n addysgiadol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn gorfforol.

Credwn mai rôl pob aelod o staff yw sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n abl a thalentog a'u bod yn cael y cyfle i ddysgu mewn awyrgylch diogel a chartrefol ei naws".

Aelodau Staff

Pennaeth:
Mrs Glesni Lloyd

Dirprwy Bennaeth:
Mr Iolo Williams

Arweinydd Cam Cynnydd 1 a 2:
Mr Tomos Rogers
(Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli)

<u>Aelodau Staff y Feithrin</u>
<u>Athrawon</u>
Ms Rachel Chugg (Llun a Mawrth)

Mrs Non Bullen (Mercher - Gwener)

Cynorthwywyr Dysgu Dosbarth

Miss Siwan Gordon

<u>Amseroedd y Feithrinfa</u>

<u>Sesiwn y Bore</u>
9:15 – 11:45

<u>Sesiwn y Prynhawn</u>
12:55 – 3:25

PARATOI EICH PLENTYN AR GYFER DECHRAU YSGOL

Gwisg Ysgol

Nid yw yn orfodol i wisgo gwisg ysgol yn y feithrin – er hyn mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud, mae'n gwneud bywyd yn haws i chi rieni!
Cofiwch labelu pob dilledyn!!

Mae gwisg ysgol ar gael i'w phrynu o siôp YC Sports.
Mae nifer fawr o siopau yn gwerthu gwisg ysgol erbyn hyn hefyd.
Edrychwch am: Crys polo 'Jade/Gwyn'/siwmper.

Mae gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) grŵp ar Facebook i drefnu prynu / gwerthu / cyfnewid gwisg ysgol YMB i'n galluogi i ailddefnyddio, ailgylchu dillad a hefyd cefnogi ein teuluoedd.
https://www.facebook.com/groups/3547524565358718/

Grant Datblygu Disgyblion
Mae Grant Datblygu Disgyblion ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, cit chwaraeon, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, bagiau ysgol, deunydd ysgrifennu ac ati.

Nid oes hawl defnyddio'r grant hwn ar gyfer TG. Ffurflen gais am Grant Datblygu Disgyblion.
https://www.cardiff.gov.uk/pupildevelopmentgrant

Awgrymwn bod eich plentyn yn gwisgo trowsus cyfforddus ac esgidiau 'felcro' er mwyn ei helpu i wisgo'n annibynnol.

Ni fydd angen gwisg ymarfer corff ar y plant – dim ond dillad cyfforddus ac esgidiau rhedeg. Cewch ragor o wybodaeth am hyn yn nes at yr amser.

Mae croeso i chi ddanfon bag gyda dillad sbâr ond gofynnwn yn garedig i chi beidio danfon unrhyw deganau.

SUT FEDRWCH CHI HELPU EICH PLENTYN?
-Annogwch eich plentyn i ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynnol.

-Dysgwch eich plentyn i olchi ei dd/dwylo ac atgyfnerthwch hyn yn gyson fel ei b\fod yn cofio gwneud hynny bob tro.
-Dysgwch eich plentyn i wisgo a dadwisgo ei g/chôt yn annibynnol.
-Annogwch eich plentyn i dacluso ac i ofalu am deganau.
-Annogwch eich plentyn i chwythu/sychu trwyn yn annibynnol.
-Os yw eich plentyn yn defnyddio dwmi neu botel babi , annogwn chi i dynnu hwn mor fuan a phosib, mae hyn yn gallu effeithio ar ddatblygiad llafaredd plant.

Yn ogystal, bydden ni'n gwerthfawrogi'n fawr pe baech chi'n medru:
-trafod â'ch plentyn yr hwyl a'r sbri a geir yn yr ysgol drwy edrych ar luniau SeeSaw – mi fydd gwybodaeth mewngofnodi yn dilyn ar ddechrau'r tymor.
-helpu eich plentyn i adnabod ei enw
-darllen llyfrau a gwylio rhaglenni Cymraeg gyda'ch plentyn mor aml â phosibl (Cyw/Apiau Cymraeg)
-rhoi cyfle i'ch plentyn ddefnyddio offer creadigol gartref e.e. creonau, pensiliau, papur, glud, siswrn a phaent

[Caru Canu gyda Cyw]

[Cyw S4C]

Byrbryd iachus a Llaeth

Mae'r plant yn derbyn byrbryd iachus a llaeth neu dŵr yn ddyddiol. Gofynnwn yn garedig i chi gyfrannu £1 yr wythnos tuag at hyn.

Gofynnwn i chi dalu o flaen llaw a'i roi mewn amlen gyda enw eich plentyn arno. Byddwn yn danfon mwy o fanylion ar ddechrau'r tymor.

PWYSIG – Oes oes unrhyw alergedd gyda'ch plentyn, mae'n RHAID rhoi gwybod ar y diwrnod cyntaf!

Moddion / Damweiniau

Nid oes gennym hawl i roi moddion fel Calpol, Nurofen ac ati heb bresgripsiwn doctor. Os oes angen moddion gan ddoctor ar eich plentyn, bydd angen i chi gwblhau ffurflen meddyginiaeth sydd ar gael yn y swyddfa.

Os yw eich plentyn yn cwympo / brifo byddwn yn llenwi ffurflen damweiniau ac yn gadael i chi wybod. Os yw eich plentyn yn taro ei b/phen, byddwn yn eich ffonio i roi gwybod i chi.

Llau Pen

Wnewch chi edrych yng ngwallt eich plentyn yn reolaidd a trin os oes angen a chlymwch wallt hir yn ôl.

Mae diwrnod cyntaf eich plentyn yn yr ysgol yn un i'w drysori ac fe wnawn bob ymdrech i wneud yn siŵr ei fod yn un hapus a chofiadwy i bawb.

Mi fydd plant y Feithrin yn dechrau fesul grGp bach, a hynny er mwyn rhoi cyfle iddynt ymgartrefu ac ymgyfarwyddo â wynebau newydd yn ogystal â'u hamgylchedd dysgu newydd. Bydd hefyd yn gyfle gwerthfawr i rieni a staff ddod i adnabod ei gilydd. Gofynnwn yn garedig i chi hebrwng eich plentyn i brif fynedfa'r Feithrin ar Heol Seland Newydd lle bydd athrawes y feithrin yno, i'ch cyfarch a'ch helpu.

Bydd yr athrawes ddosbarth ynghyd â chynorthwywyr y dosbarth ar gael i arwain eich plentyn i'r ystafell ddosbarth. Yno, bydd llu o weithgareddau deniadol wedi eu paratoi, a bydd rhyddid i'r plant chwarae ac ymlwybro o amgylch y dosbarth yn ystod eu sesiwn cyntaf.

Gofynnwn eich bod yn ffarwelio'n hapus â'ch plentyn. Mae'n bur debygol y bydd rhai plant yn ddagreuol wrth i rieni eu gadael am y tro cyntaf, ond digon buan y dônt i'r arfer â ffarwelio. Os teimlwn fod eich plentyn yn parhau i ofidio ar ôl cyfnod o amser, mi gysylltwn ni â chi.

Pan fyddwch yn casglu eich plentyn ar ddiwedd y sesiwn, dewch i mewn i iard y Feithrin. Byddwn yn trosglwyddo plant yn ddiogel i'w rhiant / gwarcheidwad bob yn un.

COFIWCH roi gwybod os oes rhywun gwahanol yn casglu eich plentyn, boed hynny drwy alwad ffôn, ar lafar neu trwy anfon neges ar Seesaw. Ni chaniatawn i blentyn fynd adref gydag unrhyw un dieithr.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon

Mae gan y GRhA dudalen Facebook sydd a gwybodaeth defnyddiol. Chwiliwch am:

Rhieni YMB/YMB parents